

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, Nos Fawrth y 11ed o Chwefror 2014.

Yn bresennol oedd y Cyngorwyr Elwyn Jones-Griffith (Cadair), Ifan Glyn Jones, Dyfed Edwards (Cyngorydd Sir), Iwan Lloyd Williams, Menna Williams, Barry Bracegirdle (Penygroes); Hefina MW Roberts, Gwyndaf Roberts, OP Huws (Llanllyfni); Harry Wyn Owen – Talysarn; Eurig Wyn Evans – Nebo

Trefnwyd cyfarfod safle gyda'r warden gwn - Hefina am gyfarfod gydag ef yn Llanllyfni, ac Elwyn am ei gyfarfod ym Mhenygroes.

Ceisiadau am arian 2013-14 Penderfynwyd fel a ganlyn – Eisteddfod Llanllyfni, Cymdeithas Arddio Dyffryn Nantlle, Clwb Pel Droed Llanllyfni, Treialon Cwn Defaid Llanllyfni, Ymgyrch Cofeb y Cymry, Clwb Pel Droed Dyffryn Nantlle - £50 yr un; Neuadd Goffa Llanllyfni, Cylch Meithrin Llanllyfni, Ambiwylans Awyr Cymru - £100 yr un; Papur Bro Lleu, Iwth Pen - £200 yr un.

Cynllunio

Cae gyferbyn a 1 Tai Glanrafon, Nebo – codi cysgodfan bren – 3 ceffyl. Cais ol-weithredol. Trafodwyd y cais am y gysgodfan sydd wedi ei godi o flaen tai Glanrafon. Y Cyngor yn bryderus fod y gysgodfan yn amharu ar olau. Yn groes i'r manylion ar y cais, nid yw'r gysgodfan 2m oddi tan lefel y wal. Hefyd, mae'r llwybr troed gyfagos wedi ei effeithio, gan ei bod yn drwchus o fwd. Byddai angen unai gofyn i'r ymgeisydd roi gwyneb ar y llwybr cyhoeddus, neu ei ffensio allan. Am y rhesymau yma, ni allai'r Cyngor Cymuned gymeradwyo'r cais.

Insiwleiddio waliau allanol Glanllyn, Nantlle; 7 Tai Baladeulyn, Nantlle; 13 Tai Penygroesedd, Nantlle; 1 Tai Penygroesedd, Nantlle. Cymeradwyo.

Caniatawyd gosod gwydro eilradd 1 i 5 Tai Baladeulyn, Nantlle gan yr Awdurdod.

Gohebiaeth

Cyngor Gwynedd

*Ymatebion i gwynion – byddwn yn adrodd yn ol i Gyngor Gwynedd fod palmentydd Penygroes i gyd yn gyffredinol angen eu glanhau o chwyn – Stryd yr Wyddfa a Heol Buddyg yn enwedig.

Byddwn yn gyrru llythyr o ddiolch i'r Cyngor am lanhau llwybr Nasareth.

*Derbyniwyd copi o adroddiad llifogydd Cavour Street, Hydref 2013.

*Cais am Fae Anabl Preswyl, Bryn Llwyn, Penygroes. Doedd dim gwrthwynebiad.

*Derbyniwyd gwybodaeth am arolwg ar wefan Cyngor Gwynedd, i annog ail gylchu a chompostio bwyd.

*Derbyniwyd llythyr am gategorïau hawliau tramwy. Mae'r Cyngor Cymuned eisioes wedi adolygu categorïau hawliau tramwy'r plwyf.

*Darllenwyd llythyr Mark Balaam a oedd yn rhoi diweddariad ar geisiadau grant ar gyfer gwella cae ger Trem yr Wyddfa, Penygroes.

Arall

*Gwasanaeth Ysbyty Gwynedd - Pryder fod diffyg yn y gwasanaeth, a bod cleifion yn gorfod aros tu allan mewn ambiwlansau am hir cyn cael eu gweld yn yr ysbyty. Profiad lleol gan glaf yn aros am 4 awr mewn ambiwlans cyn cael ei gweld. Byddwn yn gyrru llythyr i'r Bwrdd Iechyd a'r Cyngor Iechyd i'w hysbysu fod profiadau tebyg yn cael eu ailadrodd ar draws y Gogledd. Yn ail, roedd pryder am y diffyg o feddygon Cymraeg yn yr ardal, a'r anhawsterau mae cleifion (yn enwedig y rhai hyn) yn eu cael yn ceisio trafod eu salwch a disgrifio symptomau yn Saesneg. Byddwn yn cysylltu gyda'r Bwrdd Iechyd i ofyn, yn dilyn cwynion, beth yw polisi iaith y Bwrdd Iechyd wrth ddelio gyda chleifion Cymraeg sydd ag anhawster cyfathrebu yn Saesneg.

Materion Pentrefi. Penygroes Sianel pafin angen sylw tu allan i 55 Trem y Wyddfa angen sylw.